YR ATODLEN

Sancsiynau Sifil

# RHAN 1

## Cosbau Ariannol Amrywiadwy a Hysbysiadau Cydymffurfio

**Cynnwys hysbysiad terfynol:hysbysiad cydymffurfio**

**6.** Rhaid i hysbysiad terfynol sy'n ymwneud â hysbysiad cydymffurfio gynnwys gwybodaeth ynghylch—

(a) y seiliau dros osod yr hysbysiad;

(b) pa gamau cydymffurfio sy'n ofynnol ac o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid eu cwblhau;

(c) hawliau i apelio; a

(d) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.